OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2298 (Cy.197)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*28 Awst 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*22 Medi 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 21(6), 60 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 22 Medi 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Fframwaith Cenedlaethol

2. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a baratowyd gan Weinidogion Cymru sy'n dwyn yr enw "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008 — 2011" a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 28 Awst 2008 ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru(**3**) yn cael effaith fel diwygiad, sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn arwyddocaol, o "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005"(**4**).

(**1**) 2004 p. 21.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire /?lang=cy
(**4**) Rhoddwyd effaith i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 gan O.S. 2005/760 (Cy.64).